Mae modd atal hunanladdiad. Mae'n hollbwysig inni fod â chydweithredu effeithiol ar draws llywodraeth ganolog a lleol, grwpiau amlasiantaethol, cymunedau a'r holl asiantaethau lleol a all chwarae rhan yn y gwaith o atal hunanladdiadau yng Nghymru.

Wrth ddarllen yr adroddiad hwn, rhaid inni gofio bod, y tu ôl i'r ffigurau, unigolion sydd wedi gadael teulu a chymuned ar eu hôl sydd wedi'u llorio gan y golled. Trwy weithredu gyda'n gilydd, gallwn leihau hunanladdiad.



SARAH STONE
CYFARWYDDWR GWEITHREDOL SAMARIAID CYMRU



Marw o anghydraddoldeb: canfyddiadau allweddol

Mae gan bobl sydd o dan anfantais economaidd gymdeithasol neu sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd gymdeithasol fwy o risg ymddygiad hunanladdol.

Mae nodweddion anfantais economaidd gymdeithasol yn cynnwys incwm isel, dyledion amhosibl eu rheoli, amodau tai gwael, diffyg cymwysterau addysgol, diweithdra a byw mewn ardal o amddifadedd economaidd gymdeithasol.

Ym mis Mawrth 2017, lansiodd y Samariaid yr adroddiad, dan yr enw 'Marw o Anghydraddoldeb', oedd yn edrych ar y cysylltiad rhwng anfantais economaidd gymdeithasol ac ymddygiad hunanladdol.

Y PRIF GANFYDDIADAU O'R YMCHWIL

Cymdeithasol

- Mae risg hunanladdiad yn cynyddu yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad economaidd, yn arbennig pan fo dirwasgiadau'n gysylltiedig â chynnydd cyflym mewn diweithdra. Mae'r risg hon yn aros yn uchel pan ddaw argyfyngau i ben, yn arbennig i unigolion nad yw eu sefyllfa economaidd yn gwella.
- Mae gwledydd sy'n gwario mwy y pen ar raglenni gweithredol yn y farchnad lafur ac sy'n talu mwy o fudd-daliadau diweithdra, yn gweld llai o gynnydd mewn hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â dirwasgiad.
- Yn ystod y dirwasgiad mwyaf diweddar (2008-09), gwelwyd 0.54% o gynnydd mewn hunanladdiadau am bob 1% o gynnydd mewn dyledusrwydd ar draws 20 o wledydd yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.
- Mae amddiffyniad cymdeithasol ac amddiffyniad cyflogaeth i'r rhai mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas, a rhaglenni'r farchnad lafur i helpu pobl ddi-waith i ddod o hyd i swydd, yn gallu lleihau ymddygiad hunanladdol trwy leihau risgiau gwirioneddol a chanfyddedig ansicrwydd swydd, a thrwy wella ffactorau amddiffynnol, fel cyswllt cymdeithasol. Fodd bynnag, er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i'r rhaglenni fod yn ystyrlon i'r cyfranogwyr, heb achosi iddynt deimlo unrhyw stigma.

Dyma'r wyth arbenigwr a gomisiynwyd, ynghyd â'u harbenigeddau:

Yr Athro Clare Bamba, iechyd y cyhoedd, Prifysgol Newcastle

Dr Joanne Cairns, iechyd y cyhoedd, Prifysgol Newcastle

Dr Amy Chandler, cymdeithaseg, Prifysgol Caeredin

Dr Elke Heins, polisi cymdeithasol, Prifysgol Caeredin

Dr Olivia Kirtley, seicoleg iechyd, Prifysgol Glasgow; Prifysgol Ghent

Yr Athro Cyswllt David McDaid, economeg iechyd, Ysgol Economeg Llundain

Yr Athro Rory O'Connor, seicoleg iechyd, Prifysgol Glasgow

Dr Katherine Smith, polisi cymdeithasol, Prifysgol Caeredin

Cymunedol

- Mae cysylltiad cryf rhwng amddifadedd ar lefel ardal ac ymddygiad hunanladdol: wrth i amddifadedd ar lefel ardal gynyddu, mae ymddygiad hunanladdol hefyd yn cynyddu. Mae cyfraddau hunanladdiad ddwywaith i deirgwaith yn uwch yn y cymdogaethau mwyaf difreintiedig o gymharu â'r rhai mwyaf cefnog.
- Mae derbyniadau i ysbytai yn sgil hunan-niwed ddwywaith yn uwch yn y cymdogaethau mwyaf difreintiedig o gymharu â'r rhai mwyaf cefnog.
- Mae'r diweithdra a ddaw yn sgil cau nifer o gyflogwyr a chyflogwyr mawr yn gallu cynyddu'r straen yn y gymuned leol, chwalu cysylltiadau cymdeithasol a chynyddu teimladau o anobaith ac iselder. Mae'r rhain oll yn ffactorau risg cydnabyddedig ar gyfer ymddygiad hunanladdol.

Unigol

- Mae unigolion sydd o dan anfantais economaidd gymdeithasol ac sy'n cael profiadau niweidiol, fel diweithdra a dyledion amhosibl eu rheoli, â mwy o risg ymddygiad hunanladdol, yn arbennig yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad economaidd.
- Mae mwy o risg ymddygiad hunanladdol ymysg y rheiny sy'n profi ansicrwydd swydd neu ddileu swyddi, neu'r rhai sydd mewn sefyllfaoedd gwaith annhraddodiadol, fel contractau rhan amser, afreolaidd a thymor byr gyda gwahanol gyflogwyr.
- Mae'r profiad o fynd yn fethdalwr, colli cartref neu fethu ag ad-dalu dyledion i deulu a ffrindiau yn brofiad sy'n achosi straen a hefyd yn gallu arwain at deimladau o gywilydd. Gall hyn arwain at fwy o risg ymddygiad hunanladdol.
- Mae risg ymddygiad hunanladdol yn cynyddu pan fo unigolyn yn wynebu digwyddiadau negyddol mewn bywyd, fel adfyd, chwalu perthynas neu arwahaniad cymdeithasol, neu'n profi stigma, trallod emosiynol neu iechyd meddwl gwael. Mae unigolion sydd o dan anfantais economaidd gymdeithasol yn fwy tebygol o brofi straen parhaus a digwyddiadau negyddol mewn bywyd, sy'n cynyddu risg ymddygiad hunanladdol.
- Yn y Deyrnas Unedig, mae unigolion sydd o dan anfantais economaidd gymdeithasol yn llai tebygol o geisio cymorth ar gyfer problemau iechyd meddwl na phobl fwy cefnog. Maent hefyd yn llai tebygol o gael eu hatgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol yn dilyn hunan-niwed gan feddygon teulu mewn ardaloedd o amddifadedd.

Trafodaeth ford gron: canfyddiadau allweddol

Er mwyn edrych ar oblygiadau, heriau a chyfleoedd adroddiad ‘Marw o Anghydraddoldeb’ i Gymru, gwahoddodd y Samariaid bartneriaid allweddol, rhanddeiliaid ac arbenigwyr i ymuno â ni mewn trafodaeth.

Ymgysylltu Cymunedol

Codwyd yr angen i gysylltu unigolion â'u cymunedau fel mater brys, a nodwyd bod diwedd cynllun Cymunedau yn Gyntaf yn destun pryder mawr. Mae teimlo'n rhan o rwydwaith, cymuned a chymdeithas yn rhan hollbwysig o iechyd meddwl da. Er gwaethaf y diffyg ymgysylltu cymunedol mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd gymdeithasol, nodwyd bod pŵer cymunedau yng Nghymru yn gyffredinol yn ased o bwys y mae angen ei ddefnyddio.

Drwy gydol y sesiwn cytunwyd nad oes gan yr unigolion hynny sy'n byw mewn tldi mawr y modd i gymryd rhan yn y gymdeithas yn y ffyrdd mwyaf arferol. Gall gweithgareddau fel mynd i'r dafarn neu gyfarfod i gael cwpanaid o goffi fod yn amhosibl i'r rheiny sy'n byw mewn tldi, sydd felly'n lleihau'r tebygrwydd o ymgysylltu ag eraill.

Dywedwyd bod unigedd ac arwahaniad yn un o brif achosion sylfaenol trallod i unigolion sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd gymdeithasol. Yn aml gall atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl ac eilaidd gael eu priodoli i unigedd a diffyg ymgysylltiad â'r gymuned.

Dywedwyd bod ymagwedd gymunedol at unigedd ac arwahaniad, un sy'n canolbwyntio'n benodol ar ailintegreiddio unigolion i rwydweithiau cymunedol, yn arbennig trwy wirfoddoli, yn llwyddiannus iawn.

Cynigiwyd y byddai buddsoddi mewn grwpiau cymunedol a chyfeiriadur cymunedol cymdeithasol i Gymru yn ateb i'r diffyg ymgysylltu mewn ardaloedd o amddifadedd. Dywedwyd bod y cyllid cyfredol i grwpiau cymunedol yn annigonol, er eu bod yn chwarae rhan hollbwysig yn iechyd meddwl a lles meddyliol y cyhoedd. Awgrymwyd bod llawer o unigolion heb rwydwaith teuluol cadarn ac o'r herwydd bod angen iddynt ymwneud yn ystyrion mewn ffyrdd eraill â'u cymuned, eu ffrindiau a'u cymdogion. Bernir bod sefydliadau fel Men's Sheds Cymru, grwpiau cymunedol sydd â'r nod o fynd i'r afael ag unigedd ymysg dynion, yn llwyddiannus iawn. Rhaid inni ddysgu o'r mentrau hyn er mwyn cynorthwyo ein cymunedau difreintiedig.



Mae pawb eisiau bod yn aelod abl o'r gymdeithas, un sydd ag ymdeimlad o berthyn ac ystyr.



Tosturi ac empathi mewn polisiau lles

Mae anawsterau ariannol megis dyledion amhosibl eu rheoli neu drafferth wrth gael budd-daliadau yn un o ffactorau risg hunanladdiad. Mae angen i'r rheiny sy'n wynebu anhawster wrth hawlio budd-daliadau neu wrth reoli eu materion ariannol gael cymorth cyn gynted ag sy'n bosibl. Yn aml, nid yw unigolion yn cael eu canfod ond pan fyddant ar fin cyrraedd neu wedi cyrraedd pwynt argyfwng. Yn sail i'r drafodaeth hon roedd cydnabyddiaeth bod angen trin pobl â thosturi ac empathi; mae dull person-ganolog yn hanfodol er mwyn inni wella'r sefyllfa i'r rheiny sy'n byw mewn tlodi.

Trafododd y grŵp effaith polisiau lles yng Nghymru a sut y gallent fod yn achos trallod emosiynol mawr. Cododd y cyfranogwyr yr angen i ddal gwneuthurwyr polisi i gyfrif, yn enwedig pan fydd eu penderfyniadau'n cael effaith negyddol ar bobl sy'n byw mewn tlodi.

Nodwyd bod benthyca anghyfrifol ynghyd â diffyg llythrennedd ariannol yn ffynhonnell bwysig arall afiechyd meddwl. Soniodd cyfranogwyr ei bod yn bwysig gofyn yn glir i reoleiddwyr ymddygiad ariannol sicrhau bod manylion ad-daliadau a pholisïau'n glir. Trafodwyd hyn yng nghyd-destun datganoli ond cytunwyd yn helaeth y dylai ymgyrchu cyhoeddus gael ei ystyried yn ffordd i addysgu cymunedau yng Nghymru.

Gweithio cydweithredol ac amlasiantaethol

Un thema bwysig drwy gydol y drafodaeth oedd yr angen cynyddol am weithio amlasiantaethol a chysylltu ar draws gwasanaethau. Mae angen i wasanaethau cyhoeddus a sefydliadau yn y trydydd sector y nodir eu bod yn ddarparwyr gofal sy'n flaenoriaeth yn Siarad â Fi 2, er enghraifft y rheiny sy'n gweithio mewn canolfannau gwaith, banciau bwyd neu feddygfeydd ymarferwyr cyffredinol, weithio'n fwy cydweithredol. Mae angen ymagwedd llawer mwy ataliol at drallod emosiynol a syniadaeth hunanladdol trwy gyfeirio ac atgyfeirio.

Dywedodd cyfranogwyr nad oedd y rheiny oedd yn dioddef trallod emosiynol yn cael eu hatgyfeirio nes ei bod hi'n rhy hwyr ac roeddent eisoes mewn argyfwng. Er enghraifft, dylai unigolion sy'n sôn wrth eu meddyg teulu am eu hiechyd meddwl ac sy'n dweud mai dyled yw un o'r prif achosion, gael eu cysylltu ag elusennau cymorth â dyledion neu gymorth emosiynol priodol. Dylai landlordiaid ac asiantaethau gosod tai allu cyfeirio tenantiaid at ffynonellau cymorth perthnasol. Dylai canolfannau gwaith wybod am y mathau o gymorth emosiynol sydd ar gael i'w cleientiaid a'u hatgyfeirio'n unol â hynny.



Yn aml mae systemau biwrocraidd yn achosi oedi i brosesau a gwaith darparu ond mae angen inni sicrhau bod empathi a thosturi yn drech na pholisïau a gweithdrefnau.



Mae gweithio cydweithredol a chysylltu pobl â'r gefnogaeth sydd ar gael eisoes yn hollbwysig. Mae gan gymunedau'r atebion eisoes – y cwbl mae angen i ni ei wneud yw creu'r cysylltiadau.



Ymgysylltu â gwasanaethau iechyd

Dywedwyd bod ymgysylltu â gwasanaethau iechyd sylfaenol ac eilaidd, yn benodol gwasanaethau iechyd meddwl, yn destun pryder mawr mewn ardaloedd o amddifadedd.

Cydnabuwyd yn helaeth bod rhestrau aros am wasanaethau iechyd meddwl yn rhwystr mawr i lesiant gwell. Disgrifiodd llawer o gyfranogwyr nifer o achosion lle mae unigolion yn 'mynd ar goll yn y system' am nifer o resymau. Er enghraifft, mae diffyg sgiliau cyfathrebu neu lythrennedd digidol, ynghyd â phroblemau iechyd meddwl, yn golygu y gall unigolion fethu apwyntiadau penodol, yn amrywio o asesiadau cychwynnol i sesiynau cwnsela. Soniwyd yn aml fod unigolion sy'n methu un apwyntiad yn unig yn cael eu gwthio'n ôl i'r dechrau, gan gynyddu lefel y trallod a llesteirio'r gwaith o ganfod y driniaeth iawn a'r llwybr gofal iawn.

Hyfforddiant ar iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth o hunanladdiad

Nodwyd bod hyfforddiant ar iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth o hunanladdiad yn sbardunwyr allweddol wrth leddfu effaith tlodi mewn cymunedau ledled Cymru. Nodwyd bod hyfforddiant yn ymagwedd a allai fod â chryfder gwirioneddol i Gymru, a nodwyd bod gofal ac ymarfer seiliedig ar drawma, fframwaith sy'n ymatebol i effaith trawma, yn ganolog. Dywedodd cyfranogwyr hefyd fod adnoddau'n broblem enfawr o ran hyfforddiant er gwaethaf y ffaith ei fod yn un o'r cyfranwyr pwysicaf i welliannau i'r ffordd y cyflenwir gwasanaethau.

Yn aml nodir bod gan unigolion sy'n mynd i ganolfannau gwaith, banciau bwyd, digwyddiadau allestyn cymunedol a meddygfeydd ymarferwyr cyffredinol broblemau iechyd meddwl neu eu bod yn teimlo'n hunanladdol. Mae'r lleoedd hyn, a'r staff sy'n gweithio ynddynt, yn cael eu nodi'n lleoedd sy'n flaenoriaeth a darparwyr gofal sy'n flaenoriaeth yn Siarad â Fi 2 ac felly, dylai'r staff gael eu hyfforddi'n effeithiol. Dywedwyd bod hyfforddi trwy raeadru yn ffordd ddyfeisgar o wella sgiliau sefydliadau trwy ei ffocws ar hyfforddi llawer o bobl yn gyflym ac arbed costau hyfforddiant. Nodwyd bod hyfforddiant ar-lein hefyd yn faes y mae angen ei ddatblygu yng Nghymru. Yn fwyaf arwyddocaol, teimlwyd bod y broses o gael hyfforddiant i weithredu camau ymyrryd ac atal yn gorfod cael ei gwneud yn hyfyw yn economaidd i sefydliadau a chwmnïau.

Er bod hyfforddiant i staff y rheng flaen yn hollbwysig, mae staff yn teimlo bod gormod o faich arnynt gyda phwysau cynyddol i ddilyn gwahanol fathau o hyfforddiant. Mae llawer o staff y rheng flaen hwythau heb y cymorth iawn. Yn y cyd-destun hwn, mae hyfforddiant yn y gweithle i'r rheiny sydd mewn swyddi arwain yn hollbwysig hefyd.



Nid ystadegyn yw un camgymeriad gydag unigolyn lle mae'n mynd ar goll yn y system am iddo fethu apwyntiad; gall fod yn fater o fywyd cyfan rhywun.



Mae risg gwirioneddol y rhoddir gormod o faich ar staff y rheng flaen - allwn ni ddim bod ym mhobman. Does dim angen iddyn nhw wybod o angenrheidrwydd sut i ymdrin â materion gwasanaeth penodol. Yn hytrach mae angen iddyn nhw wybod sut i atgyfeirio'n briodol a chysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl.





Y cyswllt rhwng tlodi ac addysg

Dywedwyd bod buddsoddi mewn atal a gwarchod plant a phobl ifanc rhag tyfu i fyny a byw mewn tlodi a dioddef trallod emosiynol a phrofi syniadaeth hunanladdol yn un o'r prif ymrwymadau y mae eu hangen i ysgogi newid yng Nghymru. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn aml yn un o nodweddion pobl sydd o dan anfantais economaidd gymdeithasol.

Mae cael ei wahardd o addysg yn broblem sylweddol sy'n cynyddu'r tebygrwydd y bydd unigolyn yn profi syniadaeth hunanladdol. Barnwyd bod mwy o integreiddio, gan bontio'r bwlch rhwng cartref, cymuned ac ysgol, yn fuddiol. Mae angen deall cefndir disgybl er mwyn deall ei ymddygiad. Presenoldeb afreolaidd, cyrraedd yr ysgol yn llwglyd, diffyg canolbwytio neu ymddygiad gelyniaethus yw rhai o'r arwyddion bod disgybl efallai'n profi tlodi, a rhaid i ysgolion gael eu harfogi i ganfod a rheoli hyn. Mae hyn yn gysylltiedig ag ymdeimlad canfyddedig bod stigma ynghylch tlodi mewn addysg. Ynghyd â hyn, nodwyd y gall rhieni mewn ardaloedd o amddifadedd deimlo bod pobl yn siarad i lawr â nhw ac yn nawddoglyd wrthynt oherwydd eu bod yn teimlo na allant eirioli dros eu plentyn oherwydd diffyg sgiliau llythrennedd neu gyfathrebu.

Yn nhermau ymgysylltu pobl ifanc â'u cymunedau mewn modd ystyrlon ar ôl iddynt adael addysg, roedd galwad unedig i hybu prentisiaethau, hyfforddeiaethau neu raglenni i bobl sy'n gadael yr ysgol. Rhaid i bobl ifanc gael eu grymuso a'u haddysgu i ddeall nad coleg neu brifysgol yw'r unig ddewis.

O safbwynt gymdeithasol, nododd y cyfranogwyr sut yr oedd unigedd ac arwahaniad yn broblem fawr i bobl ifanc yn rhannol oherwydd dibyniaeth gynyddol ar y cyfryngau cymdeithasol. Nododd y cyfranogwyr bod angen rhwydweithiau cyfathrebu a chymorth rhwydd eu cael mewn cymunedau lleol.



Mae cost gwahardd unigolyn o addysg yn awr, yn y presennol ac yn y dyfodol, yn sylweddol iawn ac mae'n rhaid ymchwilio iddi.



Profedigaeth trwy hunanladdiad

Mae unigolion sy'n byw mewn ardaloedd o anfantais economaidd gymdeithasol yn dod i gysylltiad yn fwy ag ymddygiad hunanladdol pobl eraill ac yn fwy tebygol o gael profedigaeth trwy hunanladdiad. Cafodd colli rhywun trwy hunanladdiad ei gymharu â cholli rhywun oherwydd camddefnyddio alcohol neu sylweddau. Mae'r math o alar sydd ynghlwm wrth hunanladdiad yn unigryw ac yn galw am lefel benodol o gymorth. Mae'r stigma a'r diffyg cyfeirio yn golygu bod yr unigolion a theuluoedd sy'n cael eu gadael ar ôl yn aml heb y cymorth mae arnynt ei angen.

Cafodd diffyg cymorth yn syth ar ôl hunanladdiad ei drafod, ynghyd â rhestrau aros hirfaith am grwpiau cymorth. Nid yw llawer o unigolion yn cael eu cysylltu â gwasanaethau priodol yn ystod y cyfnod hwn oherwydd y dywedir ei bod yn anodd dod o hyd i'r 'lle iawn' i bobl. Gyda rhestrau aros hir, mae'r dewisiadau eraill yn cynnwys therapi preifat, y mae unigolion sy'n byw mewn tlodi yn methu manteisio arno oherwydd diffyg adnoddau. Soniwyd bod meddygon teulu, crwneriaid a threfnwyr angladdau yn gyfleoedd posibl o ran cyfeirio unigolion sydd wedi cael profedigaeth at asiantaethau priodol eraill a'u cysylltu â'r asiantaethau hynny.

Dileu stigma tlodi a dyled

Wrth drafod yr angen i ddileu stigma tlodi a dyled gan ddefnyddio'r cyfryngau a ffigurau cyhoeddus, cytunwyd bod angen cynnwys y gair 'bregusrwydd'. Trafododd y cyfranogwyr normaleiddio sefyllfaoedd anodd a bregus yn y cyfryngau er mwyn ceisio lleihau'r stigma ac ofn cael eu barnu sy'n atal unigolion rhag cael help a chymorth.

Roedd anfodlonrwydd helaeth â'r cynnydd yn y sylw yn y cyfryngau sy'n ecsbloetio pobl mewn cymunedau difreintiedig ac yn cyflwyno tlodi fel adloniant. Gall fod yn anodd newid yr iaith a'r agweddau ynghylch tlodi yn y gymdeithas ac yn y cyfryngau; yn aml mae stigma i fudd-daliadau, diweithdra a thai cyngor. Cytunodd y cyfranogwyr yn gryf bod yn rhaid i ni, fel cymdeithas, sylweddoli bod amddifadedd yn nes atom ni nag a feddylw'n; rhaid inni beidio â gweld cymunedau difreintiedig fel rhai ar wahân i ni.




Mae colli rhywun trwy hunanladdiad yn dod ag ymdeimlad unigryw o alar ac nid yw llawer o bobl yn gwybod sut i'w gyflwyno i'r byd. Mae yna stigma ynghylch marwolaeth trwy hunanladdiad.



Dyw llawer ohonom ni ddim yn sylweddoli ein bod ychydig o becynnau cyflog neu lai i ffwrdd o anhawster ariannol difrifol neu golli ein cartrefi. Rydym ni'n gweld bod yn dlawd yn beth ar wahân i ni ond dyw e ddim.



Mae cyfraddau
hunanladdiad
ddwywaith i
deirgwaith yn uwch
yn y cymdogaethau
mwyaf difreintiedig
o gymharu â'r rhai
mwyaf cefnog.



Argymhellion i Gymru

1 Dylai Llywodraeth Cymru lunio Strategaeth Tlodi i Gymru

Mae tlodi'n broblem fawr ym maes iechyd y cyhoedd yng Nghymru a rhaid ymdrin â hi ar fyrder. Gall tyfu i fyny neu fyw mewn tlodi gael canlyniadau trychinebus i unigolion a chymunedau, gan effeithio ar addysg, iechyd, symudedd cymdeithasol, datblygiad plant a disgwyliad oes. Yn fwyaf arwyddocaol, gall tlodi gynyddu risg hunanladdiad.

Mae'n hollbwysig cael strategaeth ganolog ar gyfer tlodi sy'n hybu ymwneud trawslywodraethol a thraws-sectorol ar gyfer problem mor fawr ym maes iechyd y cyhoedd. Mae arnom angen strategaeth sy'n lleddfu effaith tlodi ar unigolion a chymunedau ac sy'n cyd-fynd â strategaethau economaidd. Rhaid inni wella'r ddealltwriaeth o'r cyswllt hanfodol rhwng lles emosiynol a chymuned; gall buddsoddi yn y cyswllt hwn leihau costau dynol, cymdeithasol ac economaidd. Yn gyffredinol, rhaid inni wireddu potensial a chryfder cymunedau yng Nghymru; mae adfywio cymunedol yn rhan annatod o gynorthwyo â hyn.

2 Rhoi Siarad â Fi 2, strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niwed Cymru, ar waith yn lleol

Mae angen fframwaith clir ar gyfer rhoi Siarad â Fi 2 ar waith er mwyn hwyluso gweithio cydweithredol ac amlasiantaethol. Dylai pob awdurdod lleol fod â chynllun atal hunanladdiad sy'n cymryd ffactorau risg a ffactorau gwarchodol i ystyriaeth; mae angen inni weithredu'n lleol i leddfu tlodi a galluogi gwaith effeithiol i atal hunanladdiad yng Nghymru.

Mae creu a gweithredu cynlluniau lleol i atal hunanladdiad a sicrhau y caiff Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol eu cynnwys mewn Fforymau Atal Hunanladdiad Amlasiantaethol Rhanbarthol yn hollbwysig. Caiff cynlluniau lleol i atal hunanladdiad eu datblygu a'u gweithredu gan grwpiau amlasiantaethol ac maent yn hanfodol i weithredu'r strategaethau cenedlaethol ar atal hunanladdiad a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Heb gynllun lleol i atal hunanladdiad, mae gwaith i atal hunanladdiad yn llawer llai effeithiol nag y gallai fod ac mae hyn yn arbennig o arwyddocaol mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd gymdeithasol lle mae cyfraddau hunanladdiad yn uwch. Mae cynllunio lleol yn ei gwneud yn bosibl tynnu ynghyd arbenigedd a chymwyseddau lleol; dull sy'n symbylu cryfder cymunedau sy'n bodoli eisoes.

3 Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thlodi – cyflawni ymyriad

Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn brofiadau trawmatig sy'n digwydd cyn 18 oed ac yn cael eu cofio trwy gydol oes unigolyn. Mae'r profiadau hyn yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd yna ymddygiadau sy'n niweidio iechyd yn ystod bywydau unigolion pan fyddant yn oedolion, a chawsant eu codi'n gyson yn ystod ein trafodaethau. Mae tystiolaeth yn dangos bod profiadau niweidiol yn ystod

plentyndod yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd iechyd meddwl gwael, cyflawniad addysgol is, llwyddiant economaidd is, camddefnydd o alcohol a sylweddau a chysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, y mae pob un ohonynt yn ffactorau risg uchel ar gyfer hunanladdiad.

Gall ymyriadau i leihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gael effaith fawr ar iechyd a thlodi yng Nghymru a rhaid eu datblygu a'u hybu trwy ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol. Rhaid i wasanaethau iechyd lleol, awdurdodau lleol, gwasanaethau cyhoeddus a'r sector cyhoeddus ehangach fuddsoddi a gweithio i atal a lleihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac, yn fwyaf arwyddocaol, deall buddion ymyrryd yng nghylch profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Rhaid i arferion lleol gael eu llywio gan ddealltwriaeth y gall unigolion, gyda'r cymorth iawn, newid llwybr eu bywydau eu hunain.

4 Gwell gwybodaeth i'r cyhoedd am lythrennedd ariannol

Mae gan bobl sydd â dyledion amhosibl eu rheoli fwy o risg ymddygiad hunanladdol. Byddai gwybodaeth i'r cyhoedd am lythrennedd ariannol a chynghor ar ddyled yn hynod werthfawr yng Nghymru. Mae angen i unigolion a chymunedau fod yn fwy abl i ddeall a rheoli manylion a goblygiadau, er enghraifft, benthyciadau diwrnod cyflog, ad-daliadau benthyciadau a chontractau misol. Rhaid targedu benthyca anghyfrifol trwy ymgyrch gwybodaeth i'r cyhoedd. Gan adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud eisoes fel rhan o'r strategaeth cynhwysiant ariannol ar gyfer Cymru, rhaid inni arfogi a grymuso unigolion a chymunedau gyda gwell llythrennedd ariannol yn gynnar er mwyn ceisio lleihau effeithiau niweidiol dyledion amhosibl eu rheoli.

5 Grwpiau cymunedol ac allestyn fel ffordd o atal ac ymyrryd yn gynnar

Gall unigedd ac arwahaniad gael effaith ddifrifol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl, ac mae'n un o'r ffactorau risg ar gyfer ymddygiad hunanladdol a hunanladdiad. Mae bod yn ynysig yn gymdeithasol yn gallu gwneud unigolyn yn fwy agored i feddwl ac ymddygiad hunanladdol. Mae diffyg cefnogaeth gymdeithasol, diffyg cysylltiedigrwydd a diffyg integreiddio cymdeithasol yn cynyddu tebygrwydd ymddygiad hunanladdol. Mae pobl sydd o dan anfantais economaidd gymdeithasol yn aml â lefelau is o gefnogaeth gymdeithasol sy'n creu mwy o risg ymddygiad hunanladdol iddynt.

Dylid ystyried grwpiau cymunedol yn fath o ataliaeth ac ymyrraeth gynnar ar gyfer unigedd, arwahaniad a diffyg cymorth cymdeithasol yng Nghymru a dylid llunio datrysiadau polisi i gynyddu cyfranogiad cymunedol. Mae'n hollbwysig bod y mathau hyn o grwpiau cymunedol neu allestyn cymdeithasol yn cael eu cydnabod am eu buddion i iechyd; mae cysylltiedigrwydd cymdeithasol yn mynd i'r afael â diffyg cymorth cymdeithasol, a gall weithio i gyrraedd y rheiny sydd â'r risg uchaf o

gael eu hallgau'n gymdeithasol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth i grwpiau a rhwydweithiau Cymunedau yn Gyntaf gael eu dirwyn i ben yng Nghymru.

Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar yr argymhellion o Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i Unigrwydd ac Unigedd a chreu rhaglen o gamau gweithredu sy'n cefnogi seilwaith cymunedol. Dylai fod buddsoddi penodol wrth osod rhywbeth newydd yn lle model Cymunedau yn Gyntaf, gan ganolbwyntio ar elfennau'r cynllun a sicrhodd fwy o gysylltiedigrwydd mewn cymunedau difreintiedig.

6 Hyfforddiant ar iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth o hunanladdiad i staff y rheng flaen

Dylai hyfforddiant ar atal hunanladdiad fod yn rhan fawr o waith lleol i atal hunanladdiad. Mae angen i asiantaethau wybod sut a pham y dylent gael hyfforddiant da ar atal hunanladdiad a bod yn fwy ymwybodol o fuddion ymagwedd ataliol at hunanladdiad. Dylid darparu hyfforddiant i weithwyr y rheng flaen yn y sector cyhoeddus a'r sectorau rheng flaen allweddol sy'n fwy tebygol o gyfarfod â grwpiau bregus mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd gymdeithasol.

Dylid hefyd pwysleisio mwy o ymwybyddiaeth o hyfforddiant o ansawdd da. Mae hyfforddiant ar atal hunanladdiad yn arbennig o bwysig i'r rheiny y nodir eu bod yn 'ddarparwyr gofal sy'n flaenoriaeth' yn Siarad â Fi 2, megis staff canolfannau gwaith, staff iechyd argyfwng ac athrawon. Mae hefyd angen buddsoddi mewn hyfforddiant i uwch aelodau o'r staff, a sicrhau eu bod yn ei ddilyn, er mwyn darparu cymorth i'w staff rheng flaen eu hunain sy'n cynorthwyo'r bobl fwyaf bregus yn y gymdeithas.

Yn gyffredinol, mae'n hollbwysig i staff y rheng flaen a gwasanaethau cyhoeddus allu cyfeirio pobl at wasanaethau ac asiantaethau perthnasol eraill yn effeithiol.

7 Gwell cymorth i bobl sydd wedi cael profedigaeth trwy hunanladdiad

Mae pob hunanladdiad yn drasiedi sy'n cael effaith drychinebus ar berthnasau, ffrindiau, cydweithwyr a'r gymuned ehangach. Am bob un o'r marwolaethau trwy hunanladdiad yng Nghymru, awgrymwyd bod effaith fawr ar 6 o bobl ar gyfartaledd, ac mae perthnasau a ffrindiau sydd wedi cael profedigaeth trwy hunanladdiad 1.7 gwaith yn fwy tebygol o geisio lladd eu hunain.

Rhaid inni ddarparu gwell gwybodaeth a chymorth i bobl sydd wedi cael profedigaeth trwy hunanladdiad neu y mae hunanladdiad wedi effeithio arnynt. Mae rhestrau aros am gymorth gyda phrofedigaeth yn rhwystr mawr i ofal dilynol yng Nghymru. Rhaid i adnoddau megis 'Help is at Hand Cymru' gael eu dosbarthu'n ehangach. Gall y stigma ynghylch marwolaeth trwy hunanladdiad achosi arwahaniad i'r teuluoedd a ffrindiau sy'n cael eu gadael ar ôl, a byddant efallai'n cael problemau nodedig iawn o ran profedigaeth gan gynnwys euogrwydd a chywilydd. Mae'n hollbwysig inni weithio i wneud siarad am deimladau'n beth normal a hybu bod yn agored fel ffordd o geisio cymorth ac fel math o ymyrraeth gynnar er mwyn lleihau'r stigma.

8 Rhaid dileu stigma tlodi a bregusrwydd

Gall fod yn anodd newid agweddau at dlodi a bregusrwydd ond mae'n hollbwysig inni dargedu ein hymdrechion ar newid yr agwedd 'ni a nhw' yn ein cymdeithas. Gall y wasg, y cyfryngau darlledu a ffigurau cyhoeddus yng Nghymru chwarae rhan fawr iawn yn hyn o beth trwy gydnabod effaith stigma a thrwy osgoi iaith sy'n portreadu tlodi mewn ffordd sy'n cynyddu stigma, yn enwedig i'r rheiny sy'n cael budd-daliadau ac sy'n defnyddio gwasanaethau lles. Gallai rhaglenni chwalu mythau a newyddion sy'n dangos realiti go iawn byw mewn tlodi fod yn adeiladol iawn i'r gymdeithas yng Nghymru.

Fel y nodir drwy gydol yr adroddiad hwn, rhaid cydnabod cryfder a gallu cymunedau. Rhaid i strategaethau Llywodraeth Cymru weithio gyda chymunedau i ganolbwyntio ar gryfderau yn ogystal â heriau.

9 Ymagweddau tosturiol at dlodi

Yn sylfaen i'n holl drafodaethau ac argymhellion oedd yr angen i fabwysiadu ymagwedd dosturiol at y rheiny sydd o dan anfantais economaidd gymdeithasol ac sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd. Fel y nododd y cyfranogwyr yn ein trafodaethau, nid oes neb eisiau bod yn ddefnyddiwr gwasanaeth neu'n gleient; mae angen i bobl gael eu grymuso i fyw gyda chryfder a chydnerthedd. Mae cyswllt annatod rhwng tlodi ac anghydraddoldeb ac mae'n hanfodol inni drin unigolion a chymunedau sydd o dan anfantais gyda thegwch a pharch. Ni ddylai diffyg sgiliau cyfathrebu, anllythrennedd ariannol neu broblemau iechyd meddwl olygu bod colli apwyntiad yn rhoi unigolion yn ôl ar ddechrau prosesau hirfaith a rhestrau aros. Rhaid inni weithredu mewn ffordd dosturiol i wella canlyniadau i bobl sy'n cael trafferth ledled Cymru. Dylai ymagwedd system gyfan, sy'n sefydlu'r ymagwedd dosturiol at unigolion a chymunedau, gael ei gwreiddio yn systemau gwerthoedd mewnol gwasanaethau, asiantaethau a sefydliadau yng Nghymru.

10 Mynd i'r afael â chost gwahardd unigolion o addysg

Mae cael ei wahardd o addysg yn broblem sylweddol sy'n ei gwneud yn fwy tebygol y bydd unigolyn yn profi syniadaeth hunanladdol. Mae gwahardd unigolion o'r ysgol hefyd yn cyfrannu at allgau cymdeithasol a diffyg ymdeimlad o berthyn ymysg plant a phobl ifanc. Mae gwell dealltwriaeth o gefndir disgyblion a'u hymddygiad yn hanfodol. Rhaid i ysgolion a lleoliadau addysg fabwysiadu ymagweddau ac ymatebion amgen i fynd i'r afael ag ymddygiad sy'n arwain at wahardd unigolion. Rhaid i wahardd unigolion a'r rhesymau amdano gael eu nodi a'u mapio ar draws Cymru er mwyn inni ddeall y patrymau a'r tueddiadau o'i gwmpas yn well. Dylai ysgolion gael eu hannog i rannu arferion gorau wrth wahardd cyn lleied o unigolion ag sy'n bosibl ac wrth ennyn diddordeb.

Diolchwn i bawb a gymerodd ran yn ein trafodaeth ford gron 'Dod o hyd i ffordd ymlaen i Gymru'. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar y trafodaethau hynny; fodd bynnag, mae'r argymhellion oddi wrth Samariaid Cymru.

- Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
- Heddlu De Cymru
- Cyngor ar Bopeth
- Cymorth Cymru
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)
- Chwaraeon Cymru
- Alcohol Concern Cymru
- Interlink
- Cyngor Sir Torfaen
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Llywodraeth Cymru – Is-adran Iechyd Meddwl
- Mind Cymru
- Canolfan Byd Gwaith Cymru
- New Horizons
- Oxfam Cymru
- Pobl a Gwaith

I weld neu lawrlwytho adroddiad llawn 'Marw o Anghydraddoldeb', ewch i samaritans.org/dying-from-inequality/report

Samariaid Cymru
Yr Ail Lawr, 33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol,
Caerdydd CF11 9HB
Ffôn 029 2022 2008
wales@samaritans.org
samaritans.org/wales



116 123

Gellir ffonio'r rhif hwn yn **DDI-DÂL**

0808 164 0123

(Llinell Gymraeg) 7pm-11pm bob nos

Gellir ffonio'r rhif hwn yn **DDI-DÂL**



jo@samaritans.org



samaritans.org

SAMARITANS
SAMARIAID



facebook.com/samaritanscharity



twitter.com/samaritanscymru